

Active 8



Porthaethwy



01248812902

Cynhaliwyd yr ymweliad arolygu ar 09/09/2026

Gwybodaeth am y Gwasanaeth:

Gweithredir gan:

Keys Active 8 Care Limited

Math o Ofal:

Gwasanaeth Cartref Gofal
Cartref Plant

Darpariaeth ar gyfer:

Cartref gofal i blant - â gofal personol

Lleoedd cofrestredig:

5

Prif iaith/ieithoedd:

Cymraeg a Saesneg

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant
Cymru:

Mae'r darparwr yn gwneud ymdrech i hyrwyddo defnydd
o'r Gymraeg a diwylliant Cymru neu mae'n gweithio tuag
at fod yn wasanaeth dwyieithog.

Graddau:



Llesiant

Rhagorol



Gofal a Chymorth

Rhagorol



Yr Amgylchedd

Da



**Arweinyddiaeth a
Rheolaeth**

Rhagorol

Crynodeb:

Dyfarnwyd gradd 'rhagorol' ar gyfer Llesiant. Caiff hyder, gwydnwch, annibyniaeth a llesiant cyffredinol y plant eu gwella'n sylweddol drwy brofiadau cadarnhaol ac ymgysylltiad ystyrlon.

Dyfarnwyd gradd 'rhagorol' ar gyfer Gofal a Chymorth. Mae'r plant yn cael gofal effeithiol iawn wedi'i deilwra at yr unigolyn ac yn cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae'r staff gofal yn dangos dealltwriaeth ragorol o anghenion ac ymddygiadau'r plant ac yn ymrwymedig i gyflawni canlyniadau cadarnhaol.

Dyfarnwyd gradd 'da' ar gyfer yr Amgylchedd. Mae'r cartref yn cynnig amgylchedd glân a chyfforddus sydd mewn cyflwr da ac sy'n cynnig safon dda o lety ac yn diwallu anghenion y plant yn effeithiol.

Dyfarnwyd gradd 'rhagorol' ar gyfer Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Mae arweinyddiaeth gref, trefniadau llywodraethu effeithiol a systemau sicrhau ansawdd cadarn yn hyrwyddo safonau cyson uchel o ofal. Mae'r staff gofal wedi'u hyfforddi'n dda ac yn cael eu cefnogi a'u cymell, sy'n eu galluog i ddarparu canlyniadau a phrofiadau cadarnhaol i'r plant.

Canfyddiadau:



Llesiant

Rhagorol

Mae'r plant yn cyflawni canlyniadau hynod gadarnhaol am fod eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u dyheadau wrth wraidd y gofal a'r cymorth a gânt. Mae'r cofnodion yn dangos bod lleisiau'r plant yn cael eu hadlewyrchu'n gyson ac yn gynhwysfawr drwy gydol cynlluniau personol, adolygiadau a chofnodion. Mae'r plant yn cyfrannu at y broses o ddatblygu ac adolygu eu cynlluniau personol mewn modd gweithredol, gan sicrhau bod eu dewisiadau, eu dyheadau a'u nodau personol yn parhau i fod wrth wraidd prosesau gwneud penderfyniadau. Caiff nodau a dyheadau eu nodi'n glir, eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddarau i adlewyrchu cynnydd ac anghenion newidiol. Mae'r trefniadau hyn yn galluogi'r plant i gydnabod a dathlu eu cyflawniadau wrth weithio tuag at ganlyniadau ystyrlon yn y dyfodol.

Mae Active8 yn mabwysiadu dull o reoli risg sy'n hynod effeithiol ac yn canolbwyntio'n fawr ar y plentyn. Mae'r asesiadau risg yn fanwl, yn gymesur ac yn canolbwyntio ar greu cyfleoedd yn hytrach na gorfodi cyfyngiadau diangen. Mae'r staff gofal yn helpu'r plant i fyfyrio ar risgiau, datblygu gwydnwch a dysgu o brofiadau mewn ffordd ddiogel a strwythuredig. Mae hyn yn helpu'r plant i gynyddu eu hannibyniaeth wrth gynnal eu diogelwch a'u llesiant.

Caiff iechyd a llesiant emosiynol y plant eu hybu i safon uchel iawn. Mae cynlluniau personol a chofnodion iechyd yn dangos bod y plant yn cymryd rhan lawn wrth ddatblygu eu cynlluniau iechyd a bod y staff gofal yn eu hannog i ddeall eu hanghenion iechyd a'u rheoli. Mae'r trefniadau monitro yn drylwyr ac yn sicrhau bod y plant yn cael cymorth priodol pan fo angen. Mae amrywiaeth eang o weithgareddau, diddordebau a hobiau dan do ac awyr agored ystyrlon ar gael i'r plant sydd wedi'u teilwra at eu dewisiadau.

Rhoddir cyfle i'r plant gymryd rhan mewn gweithgareddau a ddarperir drwy Active8 ac maent yn cael budd o gyfleoedd helaeth i feithrin sgiliau, hyder a hunan-barch. Mae'r plant yn cael eu cefnogi i ennill cymwysterau cydnabyddedig drwy Ymddiriedolaeth y Brenin, Agored Cymru ac Assessment and Qualification Alliance (AQA). Mae'r cyfleoedd hyn yn gwella disgwyliadau yn sylweddol ac yn helpu'r plant i gyflawni canlyniadau sy'n aml yn rhagori ar y disgwyliadau.

Caiff y plant eu hamddiffyn gan safonau uchel o hylendid a threfniadau goruchwyllo effeithiol gan yr arweinwyr, sy'n helpu i sicrhau eu bod yn byw mewn amgylchedd diogel, glân ac iach. Mae'r gwasanaeth yn cynnal arferion atal a rheoli heintiau priodol, ac mae'r arweinwyr (yr Unigolyn Cyfrifol, y rheolwr a dau ddirprwy reolwr) yn monitro ansawdd y gofal a ddarperir yn rheolaidd. Mae hyn yn sicrhau y gellir nodi unrhyw faterion a mynd i'r afael â nhw yn brydlon, gan gefnogi iechyd, llesiant a diogelwch y plant.



Mae'r plant yn cael gofal a chymorth o ansawdd hynod uchel gan staff gofal medrus a phrofiadol iawn sy'n dangos dealltwriaeth neilltuol o anghenion, cryfderau, risgiau a dyheadau unigol y plant. Caiff asesiadau cyn derbyn cadarn eu cynnal mewn partneriaeth â'r plant, y teuluoedd a'r gweithwyr proffesiynol i sicrhau y gellir diwallu anghenion ac ymddygiadau. Mae'r dull cydweithredol hwn yn parhau drwy gydol arosiadau 90 diwrnod y plant yn Active8, gan sicrhau bod gofal yn parhau'n ymatebol, yn gyson ac yn canolbwyntio ar gyflawni'r canlyniadau gorau posibl.

Mae hawliau, urddas ac unigolrwydd y plant wrth wraidd ymarfer y staff gofal. Mae cynlluniau personol yn adlewyrchu dewisiadau, anghenion, dymuniadau a chanlyniadau dymunol y plant yn gynhwysfawr, gyda llais y plentyn wedi'i ymgorffori'n glir drwy gydol cofnodion ac adolygiadau. O ganlyniad, mae'r plant yn meithrin hyder, annibyniaeth ac ymdeimlad cryf o hunaniaeth personol. Mae'r plant yn cael budd o gydberthnasau magwrus a llawn ymddiriedaeth â'r staff gofal sy'n eu hadnabod yn eithriadol o dda ac yn rhoi eu llesiant wrth wraidd ymarfer. Dywedodd plentyn wrthym ei fod yn teimlo'n ddiogel, ei fod yn cael eu parchu a'i fod wedi setlo yn Active8.

Caiff iechyd a llesiant y plant eu hybu'n weithredol. Mae'r staff gofal yn annog y plant i ddatblygu ffyrdd iach o fyw ac ymgysylltu â gwasanaethau sy'n cefnogi eu hanghenion corfforol ac emosiynol. Mae'r plant yn cael eu diogelu drwy ddull cadarn a rhagweithiol o ddiogelu sydd wedi'i ymgorffori ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Mae cynlluniau diogelwch personol yn adlewyrchu anghenion a bregusrwyddau'r plant ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau'n effeithiol. Mae diwylliant diogelu cadarnhaol yn amlwg, wedi'i ategu gan ymarfer myfyriol ac ymrwymiad i ddysgu parhaus. Mae'r cofnodion yn dangos bod myfyrio ar ôl digwyddiadau yn agwedd graidd ar ymarfer, a bod hyn yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i wella cymorth a chanlyniadau i'r plant.

Cadarnhaodd trafodaethau â phlentyn ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei barchu, ei werthfawrogi ac y gwrandewir arno. Dywedodd wrthym fod y staff gofal yn hawdd mynd atynt, yn gefnogol ac yn ei gynnwys wrth gynllunio gweithgareddau. Mae'n deall sut i godi pryderon ac yn teimlo'n hyderus eu bod yn gwrandao ar ei lais. Dywed y staff gofal yn gyson fod ansawdd y gofal yn neilltuol a gwnaethant roi enghreifftiau o'r plant yn gwneud cynnydd ardderchog. Mae cofnodion yn dangos cynnydd parhaus tuag at ganlyniadau personol, gan ddangos dull effeithiol iawn y gwasanaeth o wella llesiant y plant.



Mae'r plant yn cael budd o amgylchedd o ansawdd da sy'n gyfforddus, yn groesawgar ac yn cefnogi eu hanghenion o ddydd i ddydd. Mae'r cartref yn darparu amrywiaeth o ardaloedd cymunedol a phreifat lle gall y plant dreulio amser ar eu pen eu hunain, cymdeithasu â'r staff gofal, cymryd rhan mewn gweithgareddau a chwrdd ag ymwelwyr. Mae'r ardaloedd cymunedol yn lân, yn gyfforddus ac wedi'u dodrefnu i safon dda, gan greu amgylchedd cartrefol lle gall y plant ymlacio ac ymgysylltu'n gadarnhaol â'r staff gofal.

Mae ystafelloedd gwely sy'n cynnwys cyfarpar addas ar gael i'r plant, a chânt eu hannog i bersonoli eu hystafelloedd er mwyn adlewyrchu eu dewisiadau unigol. Fodd bynnag, o ganlyniad i natur tymor byr y gwasanaeth a'r cyfleoedd i'r plant ddefnyddio llety amgen yn ystod eu hamser yn Active8, nid yw'r plant bob amser yn dewis personoli eu hystafelloedd gwely. Serch hynny, mae'r ystafelloedd gwely a welsom yn briodol ac yn diwallu anghenion y plant.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i aros mewn llety oddi ar y safle wedi'i leoli'n agos at y gweithgareddau awyr agored y maent wedi dewis cymryd rhan ynddynt. Mae'r lleoliadau hyn yn cynnwys siroedd fel Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy, sy'n galluogi'r plant i gael amrywiaeth o brofiadau hamdden a datblygiadol wrth gael cymorth gan y gwasanaeth. Gwnaeth arolygwyr adolygu cofnodion cynnal a chadw, adroddiadau monitro gan y rheolwr ac adroddiadau gan ymwelwyr annibynnol mewn perthynas â'r eiddo dan sylw.

Mae'r cartref yn gynnes, mewn cyflwr da, ac yn cynnwys dodrefn a chyfarpar addas i ddiwallu anghenion y plant. Mae'r ystafelloedd ymolchi yn hyrwyddo preifatrwydd, urddas a diogelwch. Er bod yr amgylchedd yn hygyrch i'r rhai sydd â symudedd da, mae gan y gwasanaeth rai cyfyngiadau o ran hygyrchedd i unigolion sydd ag anghenion symudedd sylweddol. O ganlyniad, er bod yr amgylchedd yn diwallu anghenion y plant sy'n byw yn y gwasanaeth ar hyn o bryd yn effeithiol, ceir cyfleoedd i wella hygyrchedd ymhellach.

Mae gan Active8 systemau priodol ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn parhau i fod yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod y safle yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol cyfredol mewn perthynas ag iechyd a diogelwch, diogelwch tân ac iechyd yr amgylchedd.



Mae Active8 yn darparu arweinyddiaeth a rheolaeth eithriadol i'r plant a'r staff gofal sy'n hyrwyddo gweledigaeth glir, dyheadau uchel ac ymrwymiad diflino i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl. Mae'r Unigolyn Cyfrifol, y rheolwr a'r dirprwy reolwyr yn dangos arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol ac wedi sefydlu diwylliant cadarnhaol lle mae'r plant wrth wraidd ymarfer. Mae'r staff gofal yn deall eu gweledigaeth a rennir yn glir a chaiff ei throsi'n gyson i ofal o ansawdd uchel sy'n cyflawni canlyniadau rhagorol i'r plant. Mae'r gwasanaeth yn cael ei lywodraethu'n eithriadol o dda. Mae systemau cadarn ar waith i fonitro, gwerthuso a gwella ansawdd y gofal a ddarperir. Mae trefniadau archwilio a sicrhau ansawdd cynhwysfawr yn galluogi arweinwyr i nodi cryfderau, mynd i'r afael â meysydd i'w gwella ac ysgogi gwelliannau parhaus. Caiff amrywiaeth eang o archwiliadau, gweithgareddau monitro a phrosesau goruchwyllo gan yr arweinwyr eu cwblhau'n rheolaidd a chânt eu defnyddio'n effeithiol i werthuso ymarfer a sicrhau bod y plant yn cael gofal diogel a chysion o ansawdd uchel. Mae'r Unigolyn Cyfrifol, y rheolwr, ymwelydd annibynnol a dau ddirprwy reolwr yn goruchwyllo pob agwedd ar y gwasanaeth yn eithriadol ac yn weladwy ac yn hygyrch iawn i'r plant a'r staff gofal.

Mae'r arweinwyr yn dangos ymrwymiad cryf i'r gwasanaeth ac yn uchelgeisiol i'r plant a'r staff gofal. Maent yn hyrwyddo diwylliant o fyfrio, dysgu ac atebolrwydd, gan sicrhau bod ymarfer yn datblygu'n barhaus er mwyn diwallu anghenion ac ymddygiadau newidiol y plant. Caiff prosesau gwneud penderfyniadau eu llywio gan adborth gan y plant, y teuluoedd, y gweithwyr proffesiynol a'r staff gofal, gan sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn ymatebol ac yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau cadarnhaol.

Mae'r plant yn cael budd o weithlu sefydlog, profiadol a medrus iawn. Mae'r staff gofal yn dangos dealltwriaeth drylwyr o anghenion ac ymddygiadau unigol y plant ac yn gwbl ymrwymedig i'w helpu i lwyddo. Mae gan Active8 gyfraddau cadw staff uchel, ac mae llawer o'r staff gofal wedi gweithio yn y gwasanaeth ers sawl blwyddyn. Dywed y staff gofal eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi'n dda ac yn hyderus yn arweinyddiaeth y gwasanaeth.

Mae trefniadau effeithiol ar gyfer recriwtio, goruchwyllo, hyfforddi a datblygiad proffesiynol yn sicrhau bod y staff gofal yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion cymhleth y plant. Mae gan yr arweinwyr ddisgwyliadau uchel o ymarfer ac yn helpu'r staff gofal i ddatblygu eu sgiliau'n barhaus drwy hyfforddiant parhaus, sesiynau goruchwyllo myfyriol a chyfleoedd ar gyfer dysgu fel tîm.

Mae gwaith partneriaeth yn un o gryfderau sylweddol y gwasanaeth. Mae'r arweinwyr yn cynnal cydberthnasau cadarnhaol â theuluoedd, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill, gan sicrhau bod gofal y plant yn gydlynol ac yn effeithiol. Mae'r adborth gan weithwyr proffesiynol yn dangos hyder yn y gwasanaeth a'i allu i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i'r plant. O ganlyniad i drefniadau llywodraethu cadarn, trefniadau goruchwyllo eithriadol ac arweinyddiaeth effeithiol iawn,

mae'r plant yn cael gofal o ansawdd uchel yn gyson gan weithlu medrus ac ymrwymedig, ac yn cyflawni canlyniadau cynaliadwy sy'n rhagori ar ddisgwyliadau yn rheolaidd.

Meysydd i'w gwella a nodwyd

Pan fyddwn yn nodi **Meysydd i'w Gwella** ac nad ydym wedi canfod bod risg uniongyrchol neu sylweddol i'r bobl, byddwn yn tynnu sylw at y rhain gyda'r darparwr. Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu a byddwn yn ystyried y mater eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

Lle byddwn yn canfod bod yn **rhaid gwella'r** canlyniadau i'r bobl **yn sylweddol** a/neu fod risg i lesiant y bobl, rydym yn nodi meysydd **Gweithredu â Blaenoriaeth**. O dan yr amgylchiadau hyn, byddwn yn cyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth i'r Darparwr, a bydd yn rhaid iddo gymryd camau ar unwaith i wneud gwelliannau. Byddwn yn cynnal arolygiad arall ymhen chwe mis er mwyn cadarnhau bod gwelliannau wedi'u gwneud a bod y canlyniadau i'r bobl wedi gwella.

Ni nododd AGC unrhyw feysydd i'w gwella yn dilyn yr arolygiad hwn.

Nid yw AGC wedi cyhoeddi unrhyw hysbysiadau gweithredu â blaenoriaeth yn dilyn yr arolygiad hwn.

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2026.

Cewch ddefnyddio ac aildddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:

psi@nationalarchives.gov.uk

Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.